## Crynodeb o Gofnodion y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth (AAP)
## Cyfarfod 17 - 2 Medi 2019

Hafod yr Hendre, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, Llanfair-ym-muallt

**Yn bresennol**

Lionel Walford – Cadeirydd
Steve Hughson – Annibynnol
Ivan Monckton – Unite
Will Prichard – NFU Cymru
Lucy Ralph – NFU Cymru
Peter Rees – Annibynnol
Darren Williams - FUW
Daryl Williams – Unite
Dylan Morgan – NFU Cymru
Helen Snow – Geldards

Llywodraeth Cymru:
Ryan Davies – Rheolwr y Panel
Spencer Conlon - Arweinydd Prosiect y Fframwaith Strategol Amaethyddol
Dan Ricketts – Ysgrifenyddiaeth

**Ymddiheuriadau**

Nick Fenwick – FUW
Bridget Henderson – Unite

**Eitem 1 - Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan gynnwys Daryl Williams o Unite a oedd yn dychwelyd i'r Panel ac yn cymryd lle Neil Beveridge.

**Eitem 2 - Newyddion diweddaraf y Cadeirydd**

Nid oedd dim i'w adrodd yn ôl.

**Eitem 3 - Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf a Chamau Gweithredu**

Trafodwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Roedd sawl Pwynt Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ar agenda'r cyfarfod hwn.

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyhoeddi'r ddogfen ymgynghori yng nghylchgrawn Agri Trader. Oherwydd y dyddiadau cyhoeddi, ni fyddai cyflwyno hysbyseb yn y cylchgrawn yn bosibl. Dywedodd Lionel y byddai, fel Cadeirydd, yn ysgrifennu at adrannau Annwyl Olygydd y Farmers Guardian a'r Farmers Weekly. Cytunwyd ar hyn gan y Panel.

**Eitem 4 - Newidiadau a Awgrymir i Orchymyn 2019 i'w hymgorffori yng Ngorchymyn 2020 (Cyngor Cyfreithiol)**
Yn unol â Pwyntiau Gweithredu'r cyfarfod blaenorol (AAP 16), esboniodd Helen i'r Panel eiriad newydd yr erthyglau canlynol yn y Gorchymyn:

- Erthygl 15 - Lwfans Gwrthbwyso Llety
- Erthygl 21 - Hawl i Dâl Salwch Amaethyddol
- Erthyglau 31 a 34 - Cyfrifo Hawl i Wyliau

Cymeradwywyd yr erthyglau diwygiedig gan y Panel.

Nododd Helen hefyd ei bod wedi edrych ar Erthygl 16 ynghylch Lwfans Ar Alwad a Lwfans Gwaith Nos ar ôl penderfyniadau diweddar a wnaed yn y Llys Apêl ac mae'r Gorchymyn yn dal i fod yn gymwys felly nid oes angen gwneud newidiadau. Cytunwyd y byddai'r canllawiau yn cael eu newid ar gyfer 2020 i sicrhau eu bod yn gliriach.

**Eitem 5 a 6 – Cyflwyno Papurau Cyflogwyr (Undebau Ffermio) a Gweithwyr (Unite)**
Roedd y ddau ochr wedi cyflwyno eu papurau o ran eu safbwyntiau ynghylch unrhyw godiadau mewn Cyflogau Amaethyddol o 1 Ebrill 2020. Cytunwyd bod y ddau'n gyflwyniadau ardderchog a byddant yn cael eu trafod ymhellach.

**Eitem 7 – Trafod Gorchymyn arfaethedig 2020**
Trafodwyd y cyfraddau ar gyfer 2020. Ar ôl tair rownd o drafodaethau rhwng cyflogwyr (NFU / FUW) a'R gweithwyr (Unite), cynhaliwyd pleidlais gan fod y cyflogwyr wedi cyflwyno gorchymyn llawn a therfynol.

Cynnig 1: Cymeradwyo cynnig NFU / FUW o 1.8% o gynnydd
O blaid – 4 Yn erbyn – 2

Cynnig 2: Cymeradwyo cynnig Unite o 2.9% o gynnydd
O blaid – 2 Yn erbyn – 4

Yn ystod y trafodaethau, cynigiodd Unite y cynnig ffurfiol a ganlyn:

"Mae'r Panel yn cydnabod dyfyniad adroddiad y Comisiwn Gwaith Tref a ddosbarthwyd yn flaenorol yn AAP 16, dogfennau 6 a 7, ac mae'n ymrwymo i ymchwilio i ddichonoldeb [o ran talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o fewn tair blynedd] fel yr argymhellwyd fel mater o flaenoriaeth".

Cytunwyd yn unfrydol gan y Panel y dylai hyn fod ar yr agenda ar gyfer AAP 19 ym mis Tachwedd gan y bydd y sefyllfa o ran Brexit gobeithio yn gliriach.

**Eitem 8 – Cynnydd o ran Moderneiddio**

Edrychodd y Panel ar y Papur Moderneiddio Diwygiedig – yn bennaf o ran sut y gall Gweithiwr Amaethyddol symud ymlaen i fod yn Uwch-weithiwr Amaethyddol. Cytunwyd y byddai'r ddwy ochr yn ailddrafftio'r papur ac y byddai'n cael ei drafod eto yn y cyfarfod nesaf.

Cytunwyd hefyd y byddai llinellau amser ar gyfer Gorchmynion 2020 a 2021 yn cael eu trafod yn y cyfarfod nesaf (nid ydynt wedi'u diweddaru oherwydd ymrwymiadau gwyliau) yn ogystal â chael gwared ar y cyfeiriadau oedran yn y bandiau cyflog.

**Eitem 9 – Unrhyw Fater Arall**

Gwnaeth Darren gyfarfod â Kirsty Williams a fyddai'n fodlon mynd i gyfarfod yr Is-bwyllgor Datblygu, Sgiliau a Hyfforddiant yn ei rôl fel y Gweinidog Addysg. Byddai'n mynd i wrando ac i weithio â'r Is-bwyllgor. Fodd bynnag, gan mai'r brif eitem ar agenda cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor yw'r ymgynghoriad "Ffermio Cynaliadwy a'n Tir" gan Lywodraeth Cymru, ni fyddai'n briodol i un o Weinidogion y Llywodraeth fod yn bresennol.

Bydd LANTRA yn cynnal seremoni wobrwyo ym mis Hydref 2019 i gydnabod ymrwymiad unigolion a busnesau o ran datblygu a hyfforddi ar draws y sector amaethyddol.

Yna daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.